



Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

Heol y Bardd, Porth Tywyn,

Sir Gaerfyrddin SA16 0NL

Ffôn:- 01554 832101

Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru

www.ysgolparcytywyn.co.uk

13/06/25

Annwyl Rieni a Gwarchodwyr,

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi gweithgaredd creadigol a hwyliog i'r plant wrth i ni baratoi ar gyfer ein sioe sydd ar ddod, Mari Poppins!

Gofynnwn yn garedig i bob teulu helpu eu plentyn i greu barcud lliwgar gartref. Dylai'r barcud fod ddim yn fwy na maint A3 (tua 30cm x 42cm) ac mae'n rhaid iddo gynnwys cynffon lliwgar a deniadol. Bydd y barcudau hyn yn cael eu defnyddio i addurno set y perfformiad, gan ychwanegu naws fywiog a hudolus i'r llwyfan – yn union fel yn y gân "Let's Go Fly a Kite"!

I wneud eich barcud yn gadarn ar gyfer ei arddangos, rydym yn awgrymu defnyddio bocs grawnfwyd neu gardbord ysgafn tebyg fel cefnogaeth. Mae hyn yn ffordd wych o ailgylchu ac yn helpu'r barcud i gadw ei siâp.

Manylion:

- Maint: Ddim yn fwy na A3
- Dyluniad: Lliwgar gyda chynffon deniadol
- Deunydd Awgrymedig: Bocs grawnfwyd neu gardbord tebyg
- Dyddiad Cau: Dydd Llun 23ain Mehefin

Templedi posib:

<https://justfamilyfun.com/kite-template/>

<https://mandysprintables.com/printable-kite-templates/>

Syniadau:



Os oes angen unrhyw gymorth arnoch neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'ch athro dosbarth.

Mae hwn yn gyfle gwych i deuluoedd fwynhau amser creadigol gyda'i gilydd tra'n cyfrannu at awyrgylch hudolus ein sioe. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at weld eich barcud hardd ar y set!

Diolch o galon am eich cefnogaeth a brwdfrydedd.

Cofion cynnes,

Staff Parc y Tywyn

